Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

13 Mehefin, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

AIL AGOR YSGOLION – DIWEDDARIAD PENWEDDIG

Yn dilyn cyhoeddiad yr wythnos ddiwethaf gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams parthed dychwelyd graddol i ysgolion yng Nghymru ar 29.6.20, carwn eich diweddaru parthed ein cynnydd a'n paratoadau er mwyn dychwelyd i gampws Penglais, Prifysgol Aberystwyth.

Bydd disgyblion yn cael y cyfle i fynychu'r safle ar **3 achlysur** cyn gwyliau'r haf, er mwyn "dod i'r ysgol, dal ati i ddysgu, paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi". Bydd yr ysgol yn agor ar gyfer **traean** o'r disgyblion, **ar unrhyw un adeg**. Mae tymor yr haf nawr wedi ei ymestyn a bydd yn terfynu ar 24.7.20 ac **nid** 27.7.20 fel cyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol i gynllunio ar gyfer ail-agor graddol yr ysgol. Ar ddydd Mawrth, 9.6.20, cynhaliwyd cyfarfod rhithiol rhwng Swyddogion Addysg Uwch yr Awdurdod Lleol er mwyn cyflwyno a thrafod ein cynllun agor graddol. Yr wythnos nesaf, cynhelir cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Llywodraethol a staff yr ysgol er mwyn cyflwyno'r cynlluniau ail-agor a'r materion gweithredol.

Pan fyddwn yn dychwelyd i gampws Penglais, Prifysgol Aberystwyth ar 29.6.20, ein blaenoriaeth yw sicrhau diogelwch ein disgyblion a'n staff. Bydd asesiad risg wedi ei gwblhau cyn byddwn yn dychwelyd i'r safle a bydd ymweliad safle yn cael ei gynnal gan Uwch Swyddogion Addysg yn ogystal â Swyddog Iechyd a Diogelwch.

Yr wythnos hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau gweithredol sy'n darparu arweiniad ymarferol ar baratoi ar gyfer a chynyddu gweithrediadau yn ystod dychweliadau graddol hyd at ddiwedd tymor yr haf. Mae'n cynnwys negeseuon allweddol ac yn rhoi arweiniad ynghylch hylendid, pellhau cymdeithasol, hunanwahanu a phrofi os yw person yn dangos symptomau.

Yn ogystal, mae canllawiau hefyd wedi eu cyhoeddi'r wythnos hon sy'n rhoi cyngor ar y dysgu a'r addysgu y gallai ysgolion a lleoliadau ddymuno eu darparu dros weddill tymor yr haf.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Am wybodaeth bellach, gweler y dolenni isod:

https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-diolgeu-addysg-covid-19?_

https://llyw.cymru/diogelu-addysg-canllawiau-ar-ddysgu-dros-dymor-yr-haf?_

YR AMGYLCHEDD YSGOL A PHARATOI AR GYFER Y 'NORM NEWYDD'

Yn sgil y canllawiau diweddar a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r canllawiau diwygiedig ar gyfer ail-agor graddol ysgolion a ddarparwyd gan ein Hawdurdod Lleol yr wythnos hon, mae'n glir bod amgylchedd yr ysgol yn mynd i edrych a theimlo'n wahanol i staff a disgyblion ar 29.6.20. Rhoddir ffocws ar ddiogelwch a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol ein disgyblion a'n staff. Bydd wythnosau olaf tymor yr haf yn paratoi disgyblion a staff yn feddyliol, emosiynol ac yn ymarferol ar gyfer y 'normal newydd' ym mis Medi. Sicrhawn ein bod yn cynnal sesiynau 'check-in' drwy ail-gysylltu fel cymuned ysgol, ail-sefydlu perthnasoedd rhwng athrawon a disgyblion a chynnal 'check-in' o'r gefnogaeth sydd angen.

Bydd mis olaf y tymor yn rhoi cyfle i 'ddal fyny'. Mae hyn yn golygu rhoi cyfle i bob disgybl weld eu hathrawon wyneb yn wyneb, er mwyn asesu eu lles a gweld pa gymorth sydd angen arnynt. Gall athrawon ddarparu cymorth i ddisgyblion gyda'u sgiliau craidd, gan ddefnyddio cymysgedd o ddysgu ar-lein a phersonol, mewn dosbarthiadau llai gyda chymorth penodol. Nid oes disgwyl i athrawon gynnal rhaglen lawn dan yr amgylchiadau presennol ac o fewn yr amserlen hon.

Yn ystod y tymor olaf, bydd hefyd ffocws ar sicrhau bod disgyblion yn 'barod i ddysgu'**:** dylai'r dysgu canolbwyntio'n glir ar baratoi disgyblion i ddysgu eto, ar eu cynnydd a'r camau nesaf, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyrraedd lefel neu'r angen i 'ddal fyny' gyda gweithgareddau. Bydd athrawon yn cefnogi'r disgyblion i weithio'n effeithiol o adref yn ogystal ag adnabod a chefnogi anghenion disgyblion unigol.

Yn ystod wythnosau ola'r tymor, bydd dysgu o bell yn parhau. Pan fydd disgyblion yn dychwelyd ym Medi, wedi gwyliau'r Haf, mae'n debygol mai'r 'norm newydd' fydd blend o ddysgu ar y safle a dysgu o bell.

Rydym yn parhau gyda'n cynllunio a'n paratoadau ar gyfer dychwelyd ar y 26.6.20, er hyn, hoffwn rannu'r wybodaeth isod gyda chi:

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

PRESENOLDEB

Bydd blwyddyn ysgol benodol y mynychu'r safle bob dydd, gan ddilyn y drefn isod:

Blwyddyn 7	Dydd Llun
Blwyddyn 8	Dydd Mawrth
Blwyddyn 9	Dydd Mercher
Blwyddyn 10	Dydd Iau
Blwyddyn 12	Dydd Gwener

Mae'r data o holiadur yr wythnos ddiwethaf yn dangos bydd disgyblion blwyddyn 11 a blwyddyn 13 yn dychwelyd i'r safle mewn niferoedd llai. Bydd trefniadau yn cael ei wneud er mwyn i'r disgyblion hynny fynychu'r safle gyda grŵp o ddisgyblion ar ddiwrnod penodol – manylion pellach i ddilyn.

YMBELLHAU CYMDEITHASOL

Bydd disgyblion yn cynnal ymbellhau cymdeithasol bydd o leiaf 2 fetr. Mae'r ystafelloedd dosbarth ar y safle wedi cael eu mesur er mwyn sicrhau bod y cynllun seddau yn cadw at ofynion o leiaf 2 fetr rhwng unigolion.

Bydd amseroedd cinio ac egwyl wedi eu darwahannu er mwyn lleihau'r nifer o ddisgyblion yn ystod y cyfnodau hyn.

Bydd ymbellhau cymdeithasol dan oruchwyliaeth yn ystod y diwrnod ysgol, amseroedd cinio ac egwyl.

Er mwyn lleihau risg trosglwyddiad, ble'n bosibl, bydd yr un staff yn rhyng-weithio gyda'r un grŵp o ddisgyblion dros amser.

Bydd disgyblion yn cael eu cadw mewn cohorts bach a bydd symudiad rhwng yr ystafelloedd dysgu yn cael ei leihau.

Bydd system un-ffordd mewn bodolaeth ar y safle.

Bydd tai bach yn cael ei ddefnyddio ar sail 'un mewn, un allan'. Bydd goruchwyliaeth gan athrawon er mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol.

Ble'n bosib, byddwn yn osgoi grwpiau amryfal o ddisgyblion yn rhyngweithio neu'n cael cyfle i ryngweithio.

Bydd disgyblion a staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd ymbellhau cymdeithasol drwy arwyddion o gwmpas y safle yn ogystal â thâp du a melyn ar y llawr. Bydd staff

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

hefyd ar ddyletswydd ar y safle er mwyn sicrhau bod ymbellhau cymdeithasol yn cael ei gynnal.

GOLCHI DWYLO / HYLENDID

Bydd staff a disgyblion yn cael eu hatgoffa i gynnal hylendid dwylo rheolaidd a golchi dwylo'n effeithiol. Bydd posteri yn weledol o gwmpas y safle ac fe fydd cyfleusterau golchi dwylo a "sanitizer" dwylo ar gael i ddisgyblion a staff olchi eu dwylo'n rheolaidd.

Bydd glanhau ar y safle yn cael ei gynyddu yn ystod y diwrnod. Bydd hyn yn cynnwys glanhau rheolaidd desgiau, cadeiriau, dolenni drysau, paneli drysau a chanllawiau grisiau. Bydd trefniadau glanhau gyda'r hwyr yn parhau.

Pan fydd disgyblion yn cyrraedd y safle, bydd eu tymheredd yn cael ei gymryd, gan ddefnyddio thermomedr, isgoch, anymwthiol. Pe gyfyd yr angen, bydd thermomedr clust, wrth gefn. Bydd unrhyw ddisgybl sydd a thymheredd o 37.5^{o}C neu'n uwch yn cael ei ddanfon adref.

Bydd ystafelloedd ynysu yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd yn sâl, nes bydd rhiant/gofalwr yn medru ei c/gasglu o'r safle. Bydd staff yn dilyn y protocol anghenrheidiol iechyd a diogelwch pan yn defnyddio'r ystafelloedd ynysu a gofalu am ddisgyblion.

PPE

Mae canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru ar PPE yn nodi nid oes angen PPE wrth ymgymryd â gweithgareddau addysgol arferol o fewn yr ystafell ddosbarth neu amgylchedd yr ysgol, er hyn, gall ddisgyblion wisgo mwgwd os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Bydd PPE yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gofal personol a chymorth cyntaf.

Dros yr wythnosau nesaf, byddaf yn darparu gwybodaeth bellach am ein cynlluniau a'n paratoadau i ddychwelyd i safle'r Brifysgol, unwaith byddant wedi gorffen. Gweler isod linc at gwestiynau cyffredin parthed sut gall ysgolion weithio o 29.6.20, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 10.6.20

https://llyw.cymru/ysgolion-yn-cynyddu-gweithrediadau-o-29-mehefin-coronafeirws

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

DYSGU O BELL – DIWEDDARIAD

O'r wythnos hon ymlaen, mae rhai o'n hathrawon yn cymryd rhan ym mheilot dysgu byw Ceredigion ar gyfer disgyblion blwyddyn 12 yn unig, er mwyn trafod gwaith, gwirio dealltwriaeth disgyblion a chynnig arweiniad pellach. Bydd Cemeg, Saesneg, Ffrangeg, Mathemateg ac Addysg Gorfforol yn cael eu dysgu drwy gyfuniad o ddysgu byw a dulliau eraill o ddysgu o bell.

Diolch am eich cyd-weithrediad a'ch amynedd tra ein bod yn ymgymryd â'r paratoadau anghenrheidiol i ddychwelyd i safle'r Brifysgol ar 29.6.20. Edrychwn ymlaen at groesawi ein disgyblion yn ôl i'r ysgol.

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf yr wythnos nesaf er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

13 June, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

I sincerely hope that you and your families, as members of our School community, continue to keep healthy and safe.

This week, I would like to inform you of the following:

GRADUAL RE-OPENING OF SCHOOLS – PENWEDDIG UPDATE

Further to last week's announcement by Welsh Government Education Minister Kirsty Willliams regarding the gradual return to schools in Wales on 29.6.20, I would like to update you on our progress and preparations regarding returning to school on Penglais campus, Aberystwyth University.

Pupils will have the opportunity to attend the site on **3 occasions** before the summer holidays to "check-in, catch-up, prepare for summer and September." The school will re-open for up to **one third** of pupils **at any one time**. The summer term has been extended and will now end on 24.7.20 and **not** 27.7.20, as previously stated by Welsh Government.

At present, the school continues to work with the Local Education Authority to plan for the gradual re-opening of the school. On Tuesday, 9.6.20, a virtual meeting was held with Local Authority Senior Education Officers to present and discuss our individual gradual re-opening plan. Next week, meetings will be held with the Board of Governors and staff to present our re-opening plans and discuss operational matters.

On return to Penglais campus, Aberystwyth University on 29.6.20, our priority is to ensure the safety of pupils and staff . An on-site risk assesment will be undertaken before our return to site and an on-site visit will be held with Education Officers as well as a Health and Safety Officer.

This week, Welsh Government has published practical guidance on preparing for and increasing operations during a phased return up to the end of the summer term. It includes key message and guidance around hygiene, social distancing, self-isolation and testing if a person shows symptoms. Guidance and advice on learning and teaching that schools may wish to provide for the remainder of the summer term has also been published.

For further information, please see links below:

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

https://gov.wales/operational-guidance-schools-and-settings-keep-education-safe-covid-19

https://gov.wales/keep-education-safe-guidance-learning-over-summer-term

THE SCHOOL ENVIRONMENT AND PREPARING FOR THE 'NEW NORM'

In light of the recent guidance from Welsh Government and revised guidance provided by our Local Authority this week regarding the gradual re-opening of schools, it is clear that the school environment will look and feel different to staff and pupils on 29.6.20. Focus will be given to the safety and mental, emotional and physical well-being of pupils and staff. The last weeks of the summer term will prepare both staff and pupils mentally, emotionally and practically – for the "new norm" in September. We will ensure that we "check-in" by reconnecting as a school community, re-establish teacher and pupil relationships and "check-in" what support is required.

The last month of term will also provide an opportunity to "catch-up". Teachers will provide support to pupils on core skills, blending online and personalised learning, in smaller classes with dedicated support. We do not expect schools to be running a full catch-up programme in these circumstances and in this timeframe.

There will also be a focus on ensuring that pupils become learning fit': learning should have a clear focus on preparing pupils to learn again, on their progression and next steps, rather than focusing on level attainment or a need to 'catch-up' on activity. Teachers will support pupils to work effectively from home as well as identifying and supporting the needs of individual pupils.

During the last weeks of term, distance learning will continue. A blend of some school and some remote learning is likely to be the "new norm" when pupils return after the summer holidays in September.

We continue our planning and preparations for our return on 26.6.20, however, I would like to share the following information with you :

ATTENDANCE

A specific year group will be on site, every day, as follows:

Year 7 Monday
Year 8 Tuesday

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Year 9	Wednesday
Year 10	Thursday
Year 12	Friday

The data from last week's questionnaire shows that pupils returning to site on the 29.6.20 from year 11 and year 13 will be less than other year groups. Arrangements will be made for pupils to attend the site with another group on a specified day – further details to follow.

SOCIAL DISTANCING

Pupils will maintain a social distance of at least 2 metres. Classrooms on site have been measured to ensure that seating arrangements adhere to the requirement of at least 2 metres between individuals.

Lunchtime and break times will be staggered to reduce the numbers of pupils during these times.

Social distancing by pupils will be supervised during the school day and during break and lunch times

To reduce the risk of transmission, where possible the same staff will interact with the same group of pupils over time.

Pupils will be kept in small cohorts and movement between classrooms will be minimised.

A one-way system will be in place on site.

Use of toilets will be on a 'one in, one out' basis and will be supervised by teachers to ensure social distancing.

Wherever possible we will avoid multiple groups of pupils from interacting or having the opportunity to mix.

Pupils will be reminded of the importance of social distancing requirements through signage around the site as well as yellow and black tape on the floor. Staff will also be supervising on site to ensure that social distancing is maintained.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

HAND-WASHING/HYGIENE

Pupils and staff will be reminded of the need to maintain regular hand-washing and effective handwashing techniques. Posters will be visible around the site and hand washing facilities and hand sanitisers will be in place and available for staff and pupils to regularly wash their hands.

Cleaning of the site will be increased during the day. This will include the regular cleaning of desks, chairs, door handles, door plates and stair bannisters. Evening cleaning arrangements will remain.

As pupils arrive at the site, they will have their temperature taken, using an infra red non-invasive thermometer. This will be backed up by an ear thermometer, if needed. Any pupil with a temperature of 37.5^{o}C or above will need to be sent home.

Isolation rooms will be used for any pupil who is ill during the day until parents/carers can collected them from site. Staff will follow the issued health and safety protocol for the use of these isolation rooms and when caring for pupils.

PPE

The latest Welsh Government guidance on PPE indicates that no PPE is required when undertaking routine educational activities in classrooms or the school setting, however, pupils can wear a mask if they wish.

PPE will be provided for intimate care and for First Aid.

Over the coming weeks, I will provide you with further planning and preparation details once they are finalised.

Please see below link to the FAQs , published by Welsh Government on 10.6.20 about how schools can work from 29.6.20.

https://gov.wales/schools-increasing-operations-29-june-coronavirus#section-43985

DISTANCE LEARNING - UPDATE

From this week onwards, some of our teachers are participating in Ceredigion's pilot of synchronous learning ('live' teaching) for year 12 pupils only to discuss work, check pupils' understanding as well as provide further guidance. Chemistry, English, French, Mathematics and Physical Education lessons will be taught through a combination of live streaming sessions and other methods of distance learning.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Thank you for your co-operation and patience as we undertake the necessary preparations for our return to site on 29.6.20. We look forward to welcoming our pupils back to school.

You will receive correspondence from me next week to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher